**Arholiad Mynediad**
**Chwefror 2024**

# CYFRIFEG A CHYLLID

Amser: 1.5 awr (90 munud)

**Dylech ateb pob cwestiwn (Pob un o’r tri)**

**Cwestiwn un = 50 marc**
**Cwestiwn dau = 30 marc**
**Cwestiwn tri = 20 marc**
**Cyfanswm = 100 marc**

Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.
Nodwch unrhyw ragdybiaethau a wnewch, a'u hesbonio.
Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.

**Cwestiwn 1** Atebwch **BOB** Rhan

Dyma grynodeb o ddatganiadau ariannol Vine Cyf am y blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth yn 2024 a 2023:

## Datganiad o Incwm

| **Datganiad o Incwm** | **31.3.2024 £'000** | **31.3.2023 £'000** |
|---|---:|---:|
| Refeniw | 25,500 | 20,000 |
| Cost y Gwerthiannau | (12,000) | (11,500) |
| | | |
| Elw Gros | 13,500 | 8,500 |
| | | |
| Costau Dosbarthu | (4,000) | (4,800) |
| Costau gweinyddu | (3,000) | (2,000) |
| | | |
| Elw o Weithrediadau | 6,500 | 1,700 |
| Costau Cyllid | (500) | (600) |
| | | |
| Elw cyn treth | 6,000 | 1,100 |
| | | |
| Treth | (1,800) | (330) |
| | | |
| Elw am y cyfnod | 4,200 | 770 |

**Trosodd**

**Cwestiwn 1 - Parhad**
Datganiad o'r sefyllfa ariannol (Mantolen)

| **Asedau anghyfredol** | **31.3.2024** | **31.3.2023** |
|---|---|---|
| Eiddo, Cyfarpar ac offer | 18,000 | 28,000 |
| | | |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Stocrestrau (Stoc) | 3,500 | 2,500 |
| Symiau Derbyniadwy Masnachol (Dyledwyr) | 2,500 | 5,000 |
| Arian Parod yn y Banc | 5,000 | 1,000 |
| | 11,000 | 8,500 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **29,000** | **36,500** |
| **RHWYMEDIGAETHAU** | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | |
| Benthyciad Banc | 10,000 | 5,000 |
| | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Symiau Taladwy Masnachol (Credydwyr) | 1,500 | 3,100 |
| Rhwymedigaethau treth | 1,200 | 2,300 |
| | **2,700** | **5,400** |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau** | **12,700** | **10,400** |
| **ECWITI** | | |
| Cyfalaf Cyfranddaliadau | 10,500 | 12,000 |
| Enillion a Gedwir yn Ôl | 5,800 | 14,100 |
| | | |
| **Cyfanswm yr Ecwiti** | **16,300** | **26,100** |
| | | |
| **Cyfanswm yr ecwiti a'r rhwymedigaethau** | **29,000** | **36,500** |

**Trosodd**

**Cwestiwn 1 - Parhad**

**Mae angen:**

a) O'r wybodaeth uchod, cyfrifo'r cymarebau ariannol sydd, yn eich barn chi, fwyaf priodol i bwyso a mesur sefyllfa ariannol Vine Cyf i'r blynyddoedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a 2023. Dylech gyfrifo wyth cymhareb o leiaf, gan roi'r fformiwlâu yn glir a dangos yr holl waith cyfrifo perthnasol.

**(30 marc)**

b) Dehonglwch ganlyniadau'ch gwaith cyfrifo yn rhan (a) uchod a rhowch eich sylwadau arnynt. Nodwch pa wybodaeth ychwanegol y byddai ei hangen arnoch er mwyn gallu cynnal y dadansoddiad hwnnw yn fanylach.

**(10 marc)**

c) Trafodwch yn gryno beth yw cyfyngiadau dadansoddi cymarebau cyfrifon ariannol.

**(10 marc)**

**Diwedd Cwestiwn 1 (50 marc)**

**Trosodd**

**CWESTIWN 2 (30 marc)**

Mae'r data yn y tabl isod yn dangos y canlyniadau ariannol disgwyliedig o fuddsoddiad mewn offer newydd.

| Blwyddyn | Mewnlifoedd blynyddol (£'000) | All-lifoedd blynyddol (£'000) | Llif net (£'000) | Cyfradd y ffactor disgownt i gyfrifo'r Gwerth Presennol Net (NVP) (5%) |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 50 | (50) | 1.00 |
| 1 | 30 | 17 | 13 | 0.95 |
| 2 | 40 | 12 | 28 | 0.91 |
| 3 | 40 | 13 | 27 | 0.86 |

Mae angen:

Ateb y cwestiynau canlynol a dangos yn glir y camau a gymerasoch i ddod i'ch ateb:

a) Ar sail y data a gynhwysir yn y tabl uchod, cyfrifwch y cyfnod ad-dalu i'r buddsoddiad. **(6 marc)**

b) Ar sail y data sydd yn y tabl uchod, cyfrifwch y Gwerth Presennol Net (NPV) i'r buddsoddiad. **(8 marc)**

c) Rhowch sylwadau am eich canlyniadau i'r rhannau (a) a (b) uchod. **(8 marc)**

d) Eglurwch beth yw ystyr y term Gwerth Presennol Net (NPV) a thrafodwch sut mae'n cael ei ddefnyddio. **(8 marc)**

**CWESTIWN 3 (20 marc)**

I ateb cwestiwn 3, dylech roi cynnig ar **DDAU** o'r cwestiynau isod (10 marc sydd ar gael i bob un, sef cyfanswm o 20 marc):

i.

a. Eglurwch beth yw ystyr y term gwerthuso buddsoddiad

**(5 marc)**

b. Eglurwch beth yw ystyr y term cyfnod ad-dalu, a thrafodwch beth yw manteision ac anfanteision defnyddio dull y cyfnod ad-dalu.

**(5 marc)**

ii. Rydych wedi penderfynu buddsoddi yn eich portffolio eich hun o gyfranddaliadau, ac wedi bod yn gofyn i gwmnïau anfon eu Hadroddiadau Blynyddol atoch.

a. Disgrifiwch y math o wybodaeth a geir mewn Adroddiad Blynyddol a nodwch at bwy y mae'r wybodaeth ariannol wedi'i hanelu.

**(4 marc)**

b. Rhestrwch pa grwpiau eraill o ddefnyddwyr fyddai'n defnyddio'r wybodaeth hon, a disgrifiwch sut y gallai tri o'r grwpiau hyn o ddefnyddwyr fod yn gwrthdaro â chi pe byddech yn penderfynu buddsoddi. **(6 marc)**

iii. Mae creu partneriaeth ar ôl bod yn unig fasnachwr yn gallu bod yn anodd dros ben.

Trafodwch fanteision ac anfanteision newid i bartneriaeth.

**(10 marc)**

*iv. 'Y Fantolen yw'r unig ddatganiad ariannol pwysig sy'n ddefnyddiol neu'n berthnasol o gwbl…..'*

Gan gyfeirio at y mathau eraill o ddatganiadau ariannol a sut y'u defnyddir, ydych chi'n cytuno â'r datganiad uchod?

**(10 marc)**

**DIWEDD Y PAPUR**